Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# BAROD AM BRIFYSGOL

## RHEOLI CYLLID YN EFFEITHIOL YN Y BRIFYSGOL

Os nad ydych wedi gwneud cais am gyllid myfyrwyr eto gwnewch NAWR!! Ewch i www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

Unwaith rydych yn derbyn cadarnhad o swm eich benthyciad myfyriwr gallwch ddechrau gweithio allan ble fydd yr arian yn mynd.

## Eich Costau byw fel myfyriwr :

- Llety £______
- Teithio £______
- Llyfrau/deunyddiau cwrs £______
- Ffôn symudol £______
- Bwyd £______
- Dillad £______
- Yswiriant £______
- Trwydded teledu £______
- Ymbincio a golchi £______
- Cymdeithasu £______
- Arall... £______

**Faint sydd yn weddill? £____**

**Ydych chi yn y COCH!!!!**

## Beth sydd yn hanfodol?
## Beth allwch ei gwtogi?

- Ystyriwch gyfrif banc yn ofalus - chwiliwch am orddrafft di-dâl a pheidio â chael eich denu gan freebies.
- Cadwch lygad ar eich cyfriflen banc yn rheolaidd er mwyn deall i ble mae'r arian yn diflannu!
- Cynilwch yr arian rydych yn ei ennill dros yr haf ac os gallwch, chwilio am swydd sy'n ffitio o amgylch eich astudiaethau.
- Sicrhewch eich bod yn cadw llygaid am ysgoloriaethau/bwrsariaethau.
- Gofynnwch am gymorth – peidiwch â gadael i broblemau ariannol mynd yn drech na chi. Mae cymorth ar gael gan y brifysgol ac asiantaethau allanol.

**Mae llawer o wybodaeth am reoli cyllid i fyfyrwyr ar gael ar Savethestudent.org a moneysavingexpert.com**

## SUT I ARBED ARIAN?

1. Osgoi prynu coffi o'r caffi - mae un coffi y dydd yn golygu tua £800 y flwyddyn.
2. Cytundeb ffôn symudol – ni all myfyrwyr fforddio biliau £40 - £80!! Chwiliwch am fargen dda.
3. Osgoi prynu car ar HP - mae'r ad-daliadau'n anodd iawn ar incwm myfyriwr.
4. Prynu dillad yn y sêls neu ailgylchu / prynu mewn siopau ail law, 'vintage', elusennol.
5. Defnyddio cerdyn NUS a safleoedd disgowntiau myfyrwyr.
6. Osgoi digwyddiadau sy'n annog gwario di-angen e.e. 'lock-ins' siopa.
7. Prynu pizza o'r archfarchnad i'w goginio adre (2 am £5) yn hytrach na gwario £20+ ar 'tecawê'.
8. Osgoi prynu'r brandiau mawr.
9. Prynu'ch holl fwyd unwaith yr wythnos gyda rhestr siopa yn hytrach na mynd bob dydd.
10. Os gallwch, cerddwch i'r archfarchnad a rhannu tacsi nôl gyda ffrindiau i'ch llety.